GŴYL AMGUEDDFEYDD CYMRU

rhyfeddwch

# Y Diweddaraf i Staff

1 MEHEFIN 2014

Bydd Gŵyl gyntaf erioed Amgueddfeydd Cymru yn cael ei chynnal rhwng 4 a 12 Hydref 2014 i gyd-fynd â **Chynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd** a gynhelir 9-10 Hydref yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd.

Fe hoffem i chi ymuno â'r ymgyrch ddwyieithog gynhyrfus hon a bod yn rhan ohoni. Mae'n cael ei threfnu gan weithgor yn cynnwys Tîm Marchnata Cymru Gyfan, aelodau o Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru, Amgueddfa Cymru a gweithwyr proffesiynol eraill o'r amgueddfeydd.

## Beth ydym yn anelu ato?

- Cael amgueddfeydd wedi'u hachredu (neu'r rhai sy'n gweithio tuag at hynny) i chwarae rhan weithgar yn ŵyl
- Dod ag Amgueddfeydd Cymru i flaen meddyliau pobl
- Cynyddu nifer y bobl a ddaw i ymweld ag amgueddfeydd yn ystod /ar ôl yr ŵyl
- Sylw gan y cyfryngau cenedlaethol a lleol ar ystod o storïau am amgueddfeydd
- Cynnydd mewn ymgysylltiad digidol e.e. trwy Twitter, Facebook
- Ymwelwyr bodlon sy'n bwriadu dychwelyd

## Pwy yw'r gynulleidfa/cynulleidfaoedd targed?

Nid oes cynulleidfa darged benodol gan y bydd hyn yn caniatáu i chi fod yn hyblyg a dewis eich cynulleidfa eich hun. Bydd hyn yn rhoi rhyddid i chi drefnu digwyddiadau a gweithgareddau sy'n gweddu orau i'ch amcanion.

## Beth yw'r negeseuon allweddol?

Bydd dwy set o negeseuon allweddol – un ar gyfer ymwelwyr ac un yn benodol at ddibenion eiriolaeth (caiff y rhain eu casglu ynghyd gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru). Bydd y rhain yn cael eu cylchredeg atoch yn y man er mwyn sicrhau cysondeb yn eich dull gweithredu.

## Oes modd i ni ddefnyddio deunydd adnabod/brandio'r ymgyrch?

Oes! Rydym wedi datblygu logo a brand ar gyfer yr ymgyrch i'r holl amgueddfeydd eu defnyddio (gweler y logo uchod i chi gael syniad). Rydym yn defnyddio 'Rhyfeddwch' fel thema greadigol ar gyfer yr ŵyl. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn cynhyrchu posteri, cardiau post, baneri rholio a hysbysebion ar lein generig yn ogystal â chregyn i chi roi eich geiriau eich hun ar y deunydd hysbysu.

Mae modd bellach lawrlwytho'r logo ar wahanol ffurfiau o –

http://welshmuseumsfederation.org/en/resources-landing/marketing/marketing-policies.html

## Galw am ddelweddau!

Mae arnom angen amrywiaeth o ddelweddau sy'n tynnu'r llygad i'w defnyddio ar y deunyddiau hyrwyddo ac ar lein. "Rhyfeddwch" yw'r thema greadigol felly dylai'r delweddau fod yr arteffactau mwyaf anhygoel yn eich casgliad.

Dylai'r ddelwedd fod yn syml ag un canolbwynt iddi. Os yw'n bosib, dylai un lliw hawlio'r gwrthrych a ddisgrifir.

Rydym hefyd yn dymuno dangos delweddau o ymwelwyr â'r amgueddfeydd yn rhyfeddu. Mae modd dangos hyn trwy ystumiau'r wyneb mewn ymateb i arteffact neu drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd ymarferol.

A fyddech cystal ag anfon manylion byr a chopi BACH IAWN o'r ddelwedd erbyn dydd Llun 30ain o Fehefin at nicola.williams@wrexham.gov.uk. Peidiwch ag anfon ffeiliau lluniau mawr. Byddwn yn cysylltu â chi'n gyflym os bydd arnom eisiau symud ymlaen. Yna byddwn yn trefnu i chi anfon delwedd maint llawn. Rhaid i'r hawlfraint fod yn syml.

## Sut gallwch chi gymryd rhan?

Gall amgueddfeydd gymryd rhan mewn nifer o ffyrdd –

- Ailfrandio digwyddiadau / gweithgareddau cyfredol yn ystod yr ŵyl
- Trefnu digwyddiadau a/neu weithgaredd newydd
- Cynnig gostyngiadau arbennig yn ystod yr ymgyrch e.e. caffi, siop, ffi mynediad
- Ei defnyddio i roi cyfle i'r wasg leol
- Gwneud y mwyaf o weithgaredd y cyfryngau cymdeithasol
- Ymuno ag amgueddfeydd/atyniadau twristiaeth eraill i wneud y 'cynnig' hyd yn oed yn well

Mae Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru yn cynnig grantiau i annog amgueddfeydd i gymryd rhan. Bydd manylion yn cael eu rhannu yn y man.

## Fydd gwefan ar gyfer yr ymgyrch?

Bydd – rydym wrthi'n datblygu gwefan i hyrwyddo'r ŵyl a chyfeirio ymwelwyr at amgueddfeydd unigol – amgueddfeyddcymru.co.uk / welshmuseums.co.uk

## Fydd yna gyfleoedd i'r cyfryngau cymdeithasol?

Rydym wrthi'n gweithio gydag arbenigwraig ar y cyfryngau cymdeithasol - Mar Dixon (bu'n rhedeg ymgyrchoedd Twitter yn ddiweddar e.e. #MuseumsWeek / #AskaCurator ac mae'n gweithio gyda Plant mewn Amgueddfeydd) i gynhyrchu strategaeth cyfryngau cymdeithasol. Bydd hon yn canolbwyntio ar –

- Greu cynulleidfaoedd
- Cynnwys o ansawdd uchel sy'n berthnasol ac yn ymgysylltu ac a fydd yn annog pobl i rannu postiau
- Annog ymwelwyr i gymryd rhan
- Annog yr amgueddfeydd hynny nad ydynt ar Twitter i gofrestru
- Cyfeirio pobl at wefan yr ymgyrch

Mae cyfrif twitter i hyrwyddo amgueddfeydd Cymru bellach wedi'i sefydlu – **@welshmuseums**. Dilynwch ac aildrydarwch lle bo modd! Bydd yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo trwy'r cyfrif hwn.

## Pa gynlluniau sydd yn eu lle i annog y wasg i fod yn rhan?

Ar hyn o bryd rydym yn cynhyrchu Cynllun Cyfathrebu ac yn datblygu storïau a fydd yn apelio at y wasg leol, ranbarthol a chenedlaethol cyn yr ymgyrch, yn ystod yr ymgyrch ac ar ei hôl.

Rydym eisoes wedi cwrdd â Media Wales i edrych i mewn i gyfleoedd Cysylltiadau Cyhoeddus yn y *Western Mail*, y papurau wythnosol a Wales Online ac maent wedi gofyn i ni lunio rhestr o erthyglau/ysgrifau posib sy'n addas i'r amryfal deitlau.

## Unrhyw gwestiynau/sylwadau?

Byddem wrth ein boddau yn clywed am yr hyn a ddaeth i'ch meddwl gyntaf a sut gallech gymryd rhan yn yr ŵyl. Cysylltwch –


Nicola Williams

nicola.williams@wrexham.gov.uk
Rhif Ffôn: 01978 298857